

Regulators' Alliance for Progressing
Infrastructure Development

September 2021



Datrysiadau adnoddau dŵr rhanbarthol
strategol: Penderfyniad drafft gât un safonol
ar gyfer Ffynonellau Hafren Trent

ofwat

 Environment
Agency

dwi

Datrysiadau adnoddau dŵr rhanbarthol strategol: Penderfyniad drafft gât un safonol ar gyfer Ffynonellau Hafren Trent

Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	2
2.	Crynodeb o asesiad y datrysiad	4
2.1	Dilyniant datrysiad a chyllid i gât dau	4
2.2	Tystiolaeth o wariant effeithlon	4
2.3	Ansawdd y cyflwyniad	5
2.3.1	Cynllun y Datrysiad	5
2.3.2	Gwerthusiad Cost a Budd.....	6
2.3.3	Rhaglen a Chynllunio.....	6
2.3.4	Yr Amgylchedd.....	7
2.3.5	Ansawdd Dŵr Yfed.....	7
2.3.6	Datganiad y Bwrdd a Sicrwydd.....	7
3.	Newidiadau arfaethedig i drefniadau partneriaid	9
4.	Camau gweithredu ac argymhellion.....	10
5.	Gweithgareddau gât dau	11
6.	Y camau nesaf.....	12
	Atodiad: Camau Gweithredu ac Argymhellion	13

1. Cyflwyniad

Diben y cyhoeddiad hwn yw nodi ein penderfyniad drafft mewn perthynas â datrysiad adnoddau dŵr rhanbarthol strategol ffynonellau Hafren Trent a gyflwynwyd ar gyfer asesiad gât un safonol gan noddwyr y datrysiad Dŵr Hafren Trent¹. Mae'r datrysiad yn cynnwys dau opsiwn i ddarparu cefnogaeth gyflenwi i drosglwyddiad Afon Hafren i Afon Tafwys, er bod y datrysiad yn cynnig defnyddio'r ddau. Mae Opsiwn 1 yn defnyddio 15 Ml/d o drwydded tynnu dŵr nas defnyddiwyd o waith trin dŵr Mythe ar gyfer tynnu dŵr i lawr y gadwyn gyflenwi, tra bod opsiwn 2 yn defnyddio 35 Ml/d o ollyngiadau wedi'u trin o waith trin dŵr gwastraff Netheridge. Mae gan Opsiwn 2 bedwar is-opsiwn sy'n pennu'r lleoliad gollwng i'r trosglwyddiad, sy'n dibynnu ar y dewis o ryng-gysylltydd fel piblinell Deerhurst neu Gamlas Cotswold. Gellir cael rhagor o wybodaeth am gefndir a chyd-destun ffynonellau Dŵr Hafren Trent yn nogfen cyhoeddi ffynonellau Dŵr Hafren Trent ar [wefan Dŵr Hafren Trent](#)².

Dylid darllen y cyhoeddiad hwn ar y cyd â'r llythyr penderfyniad drafft a roddwyd i'r noddwr y datrysiad. Cyhoeddwyd y ddogfen hon a'r llythyr penderfyniad drafft ar ein gwefan heddiw.

Goruchwylir y broses asesu gan RAPID, gyda mewnbwn gan y partneriaid sy'n rheoleiddwyr Ofwat, Asiantaeth yr Amgylchedd a'r Arolygiaeth Dŵr Yfed. Mae Asiantaeth yr Amgylchedd ynghyd â Natural England a, pan fo datrysiad yn effeithio ar Gymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, wedi adolygu adrannau amgylcheddol y cyflwyniadau, ac wedi rhoi adborth i RAPID. Rhoddodd y Cyngor Defnyddwyr Dŵr fewnbwn i'r asesiad ynglŷn ag ymgysylltu â chwsmeriaid.

Gall noddwr y datrysiad a phartïon eraill sydd â diddordeb nawr ymateb i'r penderfyniad drafft. Gwahoddir sylwadau trwy e-bost i rapid@ofwat.gov.uk a bydd y cyfnod sylwadau yn cau am 5pm ar 8 Hydref 2021. Bydd pob sylw yn cael ei ystyried cyn i'n penderfyniad terfynol gael ei gyhoeddi ar 16 Tachwedd 2021.

Byddwn yn cyhoeddi sylwadau ar ein gwefan yn www.ofwat.gov.uk/regulated-companies/rapid, oni bai eich bod yn nodi yr hoffech i'ch sylw aros heb ei gyhoeddi.. Byddwn hefyd yn rhannu sylwadau â'n partneriaid sy'n rheoleiddwyr Ofwat, Asiantaeth yr Amgylchedd a'r Arolygiaeth Dŵr Yfed a gyda Natural England a Chyfoeth Naturiol Cymru. Gall gwybodaeth a ddarperir ar ffurf sylwadau, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, gael ei chyhoeddi neu ei datgelu yn unol â deddfwriaeth mynediad at wybodaeth - yn bennaf Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (FoIA), y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2016, Deddf Diogelu Data 2018 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004. I gael gwybodaeth bellach am sut rydym yn prosesu data personol gweler ein polisi preifatrwydd.

¹ Cyfeiriwyd ato ym mhenderfyniad terfynol PR19 fel "ffynonellau Hafren Trent"

² <https://www.severntrent.com/content/dam/stw-plc/about-us/gate-1-submission-severn-trent-sources.pdf>

Os hoffech i'r wybodaeth a ddarperir gennych gael ei thrin yn gyfrinachol, a fydddech cystal â bod yn ymwybodol, bod [Cod Ymarfer](#) statudol o dan FoIA sy'n delio, ymhlith pethau eraill, â rhwymedigaethau cyfrinachedd. O gofio hyn, byddai'n ddefnyddiol petaech yn gallu egluro i ni pam eich bod yn ystyried y wybodaeth a ddarparwyd gennych yn gyfrinachol. Os byddwn yn derbyn cais i ddatgelu'r wybodaeth, byddwn yn rhoi ystyriaeth lawn i'ch eglurhad, ond ni allwn roi sicrwydd i chi y gallwn gynnal cyfrinachedd ym mhob sefyllfa. Ni fydd ymwadiad cyfrinachedd awtomatig a gynhyrchwyd gan eich system TG ynddo'i hun yn cael ei ystyried yn rhwymol ar Ofwat.

Hoffem ddiolch i Ddŵr Hafren Trent am y lefel yr ymgysylltu, cydweithredu ac arloesi y mae wedi'i ddangos yn ystod y cam hwn yn y broses gatiâu.

2. Crynodeb o asesiad y datrysiad

Tabl 1 Crynodeb o'r penderfyniad drafft

Eitem argymhelliad	Ffynonellau Hafren Trent
Noddwyr y datrysiad	Dŵr Hafren Trent
A ddylid caniatáu cyllid pellach i'r datrysiad symud ymlaen i gât dau?	Dylid
A oes tystiolaeth bod yr holl wariant yn effeithlon ac y dylid ei ganiatáu?	Oes
Cosb cymhelliant cyflawni?	Nac oes
A oes unrhyw newid i drefniadau partneriaid?	Nac oes
A oes angen cynllun gweithredu adfer?	Nac oes

2.1 Dilyniant datrysiad a chyllid i gât dau

Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod y datrysiad yn ffordd a allai fod yn werthfawr ar gyfer cyflenwi dŵr i gwsmeriaid. Yn seiliedig ar ein hasesiad o gost a budd y datrysiad posibl, rydym wedi dod i'r casgliad y dylai'r datrysiad symud ymlaen trwy'r broses gatiâu i gât dau, ac y dylid caniatáu cyllid pellach.

Nid ydym yn newid cyllido'r datrysiad hwn. Mae cyfanswm lwfans y datrysiad hwn a lwfansau gatiâu yn aros yr un fath â'r penderfyniad terfynol.

2.2 Tystiolaeth o wariant effeithlon

Nododd penderfyniad terfynol PR19 y bydd unrhyw wariant ar weithgareddau y tu allan i'r gweithgareddau gatiâu ar gyfer y datrysiadau a nodwyd (neu'r datrysiadau sy'n trosglwyddo i mewn) yn cael eu hystyried yn aneffeithlon ac yn cael eu dychwelyd i gwsmeriaid. Byddwn yn ystyried a yw gweithgaredd gatiâu yn effeithlon trwy ystyried perthnasedd, amseroldeb, cyflawnrwydd ac ansawdd y cyflwyniad a ddylai gael ei gefnogi gan feincnodi a sicrwydd.


Mae ein hasesiad o'r costau effeithlon fel y'u gwariwyd ar weithgareddau gât un yn arwain at lwfans ar gyfer y datrysiad hwn o £0.308 miliwn (o £0.308 miliwn a hawliwyd).

2.3 Ansawdd y cyflwyniad

Nod yr asesiad oedd penderfynu a wnaed cynnydd priodol tuag at gyflawni'r datrysiad. Rydym yn cydnabod ar y cam hwn y gall datrysiadau fod ar wahanol gamau datblygu ac mae'r asesiad yn rhoi ystyriaeth i hyn.

Mae Ffigur 1 yn dangos ein hasesiad o'r gwaith a gwblhawyd ar y datrysiad, a gyflwynwyd yn y cyflwyniad. Cynhaliwyd ein hasesiad yn erbyn y meini prawf cadernid, cysondeb ac ansicrwydd i raddio pob maes o'r cyflwyniad fel un da, boddhaol neu wael yn unol â'n [canllawiau a gyhoeddwyd ar 22 Chwefror 2021](#)³. Rydym hefyd wedi asesu'r sicrwydd a ddarparwyd gan y Bwrdd.

Ffigur 1. Asesiad o'r Cyflwyniad



Ein hasesiad cyffredinol ar gyfer cyflwyniad y datrysiad yw ei fod yn dda (bodloni'r disgwyliadau). Fodd bynnag, mae rhai elfennau asesu penodol yn dal i fod lle nad oedd y cyflwyniad yn brin o'r disgwyliadau, y manylir arnynt yng ngweddill Adran 2.

2.3.1 Cynllun y Datrysiad

Ystyriodd ein hasesiad o gynllun y datrysiad ansawdd y dystiolaeth a ddarparwyd ar y datrysiad cychwynol a'r opsiynau; y defnydd gweithredol disgwyliedig o'r datrysiad; rhyngweithiad y datrysiad â datrysiadau adnoddau dŵr arfaethedig eraill ac ymgysylltiad â

³ <https://www.ofwat.gov.uk/publication/rapid-strategic-regional-water-resource-solutions-guidance-for-2021/>

rhanddeiliaid a chwsmeriaid. Ystyriodd yr asesiad hefyd a ddarparwyd gwybodaeth am gyddestun safle'r datrysiad o fewn cynlluniau cwmni, rhanbarthol a chenedlaethol.

Rydym o'r farn bod cynnydd ac ansawdd yr ymchwiliad a gwblhawyd gan Dŵr Hafren Trent wrth ddatblygu cynllun y datrysiad yn gât un wedi bod yn dda. Roedd tystiolaeth y cyflwyniad yn dal i fod yn brin o'r disgwyliadau o ran rhai elfennau asesu penodol, gan gynnwys dyfnder y ddealltwriaeth o ddefnydd y datrysiad, a lefel a manylder yr ymgysylltu â rhanddeiliaid penodol y tu hwnt i'r rhai sy'n gysylltiedig â'r Grŵp Rhanbarthol. Rydym yn cydnabod bod y cyflwyniad yn tynnu sylw at waith ychwanegol sydd i'w wneud yn y ddau faes hwn trwy gât dau.

2.3.2 Gwerthusiad Cost a Budd

Ystyriodd ein hasesiad o'r gwerthusiad cost a budd ansawdd y wybodaeth a ddarperir ar gostau datrysiadau cychwynnol; y gost a'r budd cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd, budd adnoddau dŵr a budd gwytnwch ehangach. Ystyriodd yr asesiad hefyd a ddarparwyd tystiolaeth ynglŷn â sut mae'r datrysiad yn sicrhau canlyniad gwerth gorau i gwsmeriaid a'r amgylchedd.

Rydym o'r farn bod cynnydd ac ansawdd yr ymchwiliad a gwblhawyd gan Dŵr Hafren Trent wrth werthuso cost a budd y datrysiad yn gât un wedi bod yn dda. Roedd y dystiolaeth a gyflwynwyd yn dal i fod yn brin o'r disgwyliadau o ran rhai elfennau asesu penodol, gan gynnwys ymchwilio i fudd gwytnwch ehangach a allai ddod yn sgil y datrysiad (y tu hwnt i wytnwch y datrysiad ei hun), a'r drafodaeth ar werth gorau opsiynau'r datrysiad, neu'r datrysiad yn gyfan.

2.3.3 Rhaglen a Chynllunio

Ystyriodd ein hasesiad o'r rhaglen a'r cynllunio a oedd Dŵr Hafren Trent wedi cyflwyno rhaglen a oedd â cherrig milltir allweddol ac a yw ar y trywydd iawn i'w chyflawni. Ystyriodd yr asesiad hefyd ansawdd y wybodaeth a ddarparwyd ynglŷn â risgiau a materion ar gyfer datblygu datrysiadau, y strategaeth llwybr caffael a chynllunio a gweithgareddau gatiâu dilynol gyda chanlyniadau, meini prawf asesu cosb a chymhellion.

Rydym o'r farn bod y dystiolaeth a ddarparwyd gan ddŵr Hafren Trent ynglŷn â'r rhaglen a chynllunio, risgiau a materion a'r strategaeth llwybr caffael a chynllunio ar gyfer datrysiad Dŵr Hafren Trent yn dda o ran ei fanylder ar gyfer gât un.

Fel thema allweddol ar gyfer gât dau, hoffem yn arbennig sicrhau bod rhwystrau a risgiau rheoleiddio amgylcheddol yn cael eu deall, ynghyd â dilyniant mesurau lliniaru cysylltiedig.

2.3.4 Yr Amgylchedd

Ystyriodd ein hasesiad o'r amgylchedd yr asesiad amgylcheddol cychwynnol; nodi risgiau amgylcheddol ac amlinelliad o fesurau lliniaru posibl; y rhaglen waith fanwl a ddefnyddir i fynd i'r afael â gofynion asesiad amgylcheddol a'r amlinelliad cychwynnol o sut y bydd y datrysiad yn ystyried yr ymrwymadau carbon.

Rydym o'r farn bod cynnydd ac ansawdd yr ymchwiliad a gwblhawyd gan Dŵr Hafren Trent wrth werthuso elfennau amgylcheddol y datrysiad yn gât un wedi bod yn foddhaol. Mae'r dystiolaeth a gyflwynwyd yn brin o'r disgwyliadau gât un o ran yr amgylchedd mewn rhai meysydd, gan gynnwys gwaith sy'n ofynnol i asesu a deall effaith a risgiau'r datrysiad ar gyrff dŵr sy'n cyflawni eu hamcanion amgylcheddol o dan Reoliadau Amgylchedd Dŵr (Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr) (Cymru a Lloegr) 2017.

2.3.5 Ansawdd Dŵr Yfed

Roedd ein hasesiad o ansawdd dŵr yfed yn ystyried ansawdd dŵr yfed ac asesiadau risg; tystiolaeth bod y datrysiad wedi'i drafod gyda'r tîm ansawdd dŵr yfed a chynllun ar gyfer gwaith yn y dyfodol i ddatblygu Cynlluniau Diogelwch Dŵr Yfed (DWSPs).

Rydym o'r farn bod y wybodaeth a ddarparwyd yn y cyflwyniad hwn ar risgiau ansawdd dŵr yfed, ymgysylltu â rhanddeiliaid a DWSPs ar gyfer gât un yn dda, Disgwyliwn weld datblygiad pellach DWSPs, monitro ansawdd dŵr, gan gynnwys halogion sy'n dod i'r amlwg, ac ymgysylltiad ehangach â rhanddeiliaid â deialog barhaus gyda'r timau ansawdd dŵr priodol yn gât dau.

2.3.6 Datganiad y Bwrdd a Sicrwydd

Aseswyd bod y dystiolaeth a ddarparwyd mewn perthynas â sicrwydd yn dda. Mae Hafren Trent wedi darparu datganiad Bwrdd sy'n nodi:

- ei gefnogaeth i argymhellion y cyflwyniad ar gyfer dilyniant y datrysiad / opsiwn;
- ei fod yn fodlon bod y cynnydd o ran y datrysiad yn gymesur â bod y datrysiad yn barod i'w adeiladu ar gyfer 2025-30;
- ei fod yn fodlon bod y gwaith a wnaed hyd yma o ran cwmpas, manylder ac ansawdd yn ddigonol fel y byddai disgwyl ar gyfer prosiect seilwaith mawr o'r math hwn ar hyn o bryd;
a
- bod gwariant wedi'i gael ar weithgareddau sy'n briodol ar gyfer gât un a'i fod yn effeithlon.

I gyd-fynd â'r datganiad hwn mae esboniad o'r dull ar gyfer sicrwydd a disgrifiad o'r dystiolaeth a'r wybodaeth y mae'r Bwrdd wedi dibynnu arnynt wrth roi'r datganiad.

3. Newidiadau arfaethedig i drefniadau partneriaid

Nid oes unrhyw newidiadau arfaethedig i drefniadau partneriaid.

Fel rhan o drafodaethau gât un, mewn cytundeb â noddwyr datrysiadau perthnasol ac ar gais Hafren Trent, cytunwyd y byddai opsiwn Ail-leoli Amwythig yn cael ei ymchwilio fel rhan o ddatrysiad trosglwyddiad Afon Hafren i Afon Tafwys yn hytrach nag fel opsiwn o fewn ffynonellau Hafren Trent.

4. Camau gweithredu ac argymhellion

Lle bo cyflwyniad wedi'i asesu fel un sydd ddim yn 'bodloni disgwyliadau' rydym wedi rhoi adborth ar ble y byddwn yn ceisio adfer y problemau. Rydym hefyd wedi nodi camau penodol y dylai perchnogion datrysiadau eu cymryd wrth baratoi ar gyfer gât dau.

Rydym wedi categorio'r materion adfer a'r camau hyn yn gamau gweithredu blaenoriaeth, camau gweithredu ac argymhellion.

Camau gweithredu blaenoriaeth yw'r rhai y dylid fod wedi'u cwblhau yn gât un ac mae'n rhaid mynd i'r afael â nhw nawr mewn cyfnod byr er mwyn sicrhau bod y datrysiadau yn aros ar y trywydd iawn. Mae angen adferiad brys arnynt yn llawn ac am y rheswm hwn maent yn uniongyrchol gysylltiedig â'r asesiad o gymhellion cyflawni a nodir yn y cyhoeddiad hwn. Bydd yr ymateb i'r camau gweithredu blaenoriaeth yn penderfynu a osodir cymhelliant cyflawni; ac i ba raddau y gall noddwyr y datrysiadau liniaru'r cymhellion cyflawni. Os cwblheir yr holl gamau gweithredu blaenoriaeth yn foddhaol yna ni osodir y gosb. Os na chaiff un neu fwy o'r camau gweithredu blaenoriaeth eu cwblhau'n foddhaol yna gosodir y gosb gyfan.

Rydym hefyd wedi nodi camau gweithredu y dylid mynd i'r afael â hwy'n llawn yng nghyflwyniad gât dau. Bydd yr ymateb i'r camau gweithredu hyn yn dylanwadu ar yr asesiad o gyflwyniad gât dau.

Mae argymhellion yn faterion lle gallai gwybodaeth neu eglurhad ychwanegol wella ansawdd cyflwyniadau yn y dyfodol.

Ni nodwyd unrhyw gamau gweithredu blaenoriaeth ar gyfer Ffynonellau Hafren Trent, felly nid ydym yn ei gwneud yn ofynnol i noddwr y datrysiadau roi cynllun gweithredu adfer i ni. Mae'r rhestr lawn o gamau gweithredu ac argymhellion eraill i'w gweld yn yr atodiad.

5. Gweithgareddau gât dau

Bydd y datrysiad yn parhau i gael ei gyllido i gât dau fel rhan o'r llwybr gât safonol.

Ar gyfer ei gyflwyniad gât dau, rydym yn disgwyl i Dŵr Hafren Trent gwblhau'r gweithgareddau a restrir ym [mhenderfyniadau terfynol PR19: atodiad datrysiadau adnoddau dŵr rhanbarthol strategol](#) fel yr ymhelaethir arnynt yn Adran 15 o'i gyflwyniad gât un.

6. Y camau nesaf


Ar ôl cyhoeddi'r penderfyniad drafft gât un hwn, gwahoddir noddwr y datrysiad a rhai eraill â diddordeb i ymateb i'r penderfyniad drafft. Gellir gwneud sylwadau trwy e-bost i rapid@ofwat.gov.uk a bydd y cyfnod sylwadau yn cau am 5pm ar 8 Hydref 2021. Bydd pob sylw yn cael ei ystyried cyn i'n penderfyniad terfynol gael ei gyhoeddi ar 16 Tachwedd 2021.

Atodiad: Camau Gweithredu ac Argymhellion

Camau gweithredu – i fynd i'r afal â hwy yng nghyflwyniad gât dau		
Nifer	Adran	Manylion
1	Cynllun y Datrysiad	Sicrhau bod cyfrifiadau defnydd manwl pellach yn cael eu cynnal yn gynnar yn gât dau er mwyn bwydo i'r Aseiad Effaith Amgylcheddol (AEA).
2	Cynllun y Datrysiad	Ar gyfer adrodd ar randdeiliaid ac ymgysylltu, rhwch fanylion materion, themâu trafodaethau â rheoleiddwyr a chanlyniadau'r ymgysylltiad hwn.
3	Cost a Budd	Cwblhau modelu gwytnwch i sychder, gan ystyried cyfyngiadau posibl sy'n deillio o 'Orchymyn Sychder Afon Hafren', sy'n berthnasol i drwydded tynnu dŵr Mythe.
4	Cost a Budd	Sicrhau bod dadansoddiad gwerth gorau (gan ddilyn canllawiau perthnasol) yn cael ei gynnal a'i gyflwyno ar gyfer yr holl opsiynau yn y datrysiad, gan ganolbwyntio ar ymgorffori costau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd. Cysylltu â thrafodaethau am werth gorau y datrysiad hwn a datrysiadau galluogi eraill ar gyfer datrysiadau dibynnol (e.e. Trosglwyddiad Hafren Tafwys).
5	Yr Amgylchedd	Diweddarau statws a risgiau dirywiad o dan Reoliadau (Cyfarwyddeb y Fframwaith Dŵr) (Cymru a Lloegr) 2017, gan roi sylw arbennig i'r: Dosbarth a ddefnyddir; safonau a ddefnyddir; Cemegau; Dirywiad o <10%; Effaith ar derfynau trwyddedau.
Argymhellion		
Nifer	Adran	Manylion
1	Cynllun y Datrysiad	Datblygu ffigur defnydd yn ystod digwyddiadau sychder allweddol (megis digwyddiadau 1:500 mlynedd). Byddai'r datblygiad hwn yn gofyn am fewnbwn gan ddatrysiadau/modelau rhanbarthol eraill. Sicrhau bod amser arweiniol ar gyfer cyflawni, yn dibynnu ar statws gweithredu wrth gefn datrysiadau, yn cael ei gynrychioli mewn unrhyw benderfyniadau sy'n derbyn datrysiadau.
2	Cynllun y Datrysiad	Ymgysylltu ymhellach â chwsmeriaid ynglŷn â newid y ffynhonnell gyflenwi o ganlyniad i roi'r datrysiad hwn ar waith.
3	Cost a Budd	Ystyried gwerth cymdeithasol ac o ran amwynderau, os yw hyn yn gyfyngedig oherwydd y math o ddatrysiad gellir egluro hyn yn y cyflwyniad.

Penderfyniad drafft gât un safonol ar gyfer ffynonellau Hafren Trent
SWYDDOGOL

4	Cost a Budd	Ymchwilio ymhellach i gyfleoedd posibl budd gwytnwch ehangach a ddaw yn sgil opsiynau penodol sydd yn y datrysiad hwn. Rydym yn cydnabod y gallai mathau o ddatrysiad gyfyngu ar y cyfleoedd sydd ar gael.
---	-------------	--



Ofwat
Centre City Tower
7 Hill Street
Birmingham B5 4UA
Ffôn: 0121 644 7500

© Hawlfraint y Goron 2021

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi ei drwyddedu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored v3.0 oni bai y nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch I nationalarchives.gov.uk/doc/open-governmentlicence/version/3.

Lle yr ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r ddogfen hon ar gael hefyd ar ein gwefan yn www.ofwat.gov.uk.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn atom yn mailbox@ofwat.gov.uk.

OGL